CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | Dydd Llun, 18 Ebrill 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824706141 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 EBRILL 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O FUDDIANT**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20fed Mawrth 2012 [copi'n amgaeëdig].

**5 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 11 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd J Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd (copi'n amgaeëdig) sy'n nodi rhagolygon diwedd y flwyddyn ar gyfer cyllideb refeniw a pherfformiad mewn perthynas â strategaeth y gyllideb ar gyfer 2011/12.

**6 CREU CRONFA WADDOL GYMUNEDOL SIR DDINBYCH** (Tudalennau 29 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans, Arweinydd (copi'n amgaeëdig) sy'n rhoi gwybodaeth ar nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth segur neu aneffeithiol a'u hasedau cysylltiedig a weinyddir gan y Cyngor, ac argymell ffordd ymlaen i ryddhau'r arian o'r cronfeydd hyn.

**7 ADRODDIAD TERFYNU BWRDD POBL A LLEOEDD** (Tudalennau 35 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd P.A. Dobb, Aelod Arweiniol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (copi'n amgaeëdig) sy'n manylu'r llwyddiannau a'r hyn a ddysgwyd gan Fwrdd Pobl a Lleoedd.

**8 RHAGLEN WAITH Y CABINET I'R DYFODOL** (Tudalennau 59 - 60)

Derbyn y Rhaglen amgaeëdig o Waith y Cabinet i'r Dyfodol a chydnabod y cynnwys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

**9 PRYNU 25/26 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL TRWY ORCHYMYN PRYNIANT GORFODOL** (Tudalennau 61 - 68)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd P.J. Marfleet, Aelod Arweiniol Moderneiddio'r Cyngor (copi'n amgaeëdig) ar ddefnyddio trefniadau Pryniant Gorfodol i brynu'r eiddo a elwir 25/26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl i bwrpas ailddatblygu.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Pauline Dobb | Paul Marfleet |
| Hugh Evans | David Thomas |
| Sharon Frobisher | Julian Thompson-Hill |
| Morfudd Jones | Eryl Williams |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned